



Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy

Ysgol Ardal Newydd Caerhun a Threfriw Hydref 2018

‘YSGOL DYFFRYN YR ENFYYS’

CYHOEDDI ENW YSGOL ARDAL NEWYDD CAERHUN a THREFRIW

Pleser gan CBSC yw cyhoeddi mai Ysgol Dyffryn yr Enfys yw'r enw a ddewiswyd ar gyfer ysgol ardal newydd Caerhun a Threfriw. Pleidleisiodd y corff llywodraethol dros dro dros yr enw a awgrymwyd gan y trigolion, rhieni a disgyblion.

Ymunodd y pennaeth newydd, yn ogystal â disgyblion o gynghorau Ysgol Dolgarrog ac Ysgol Tal y Bont a'r Cyng. Garffild Lewis (deilydd y portffolio Addysg) â'i gilydd i ddathlu'r achlysur a oedd yn cynnwys baner a wnaed gan y disgyblion. Darparodd K&C Construction anrheg i'r 4 disgybl fel diolch iddynt am ymweld.



Ewch i:

www.conwy.gov.uk/caerhunandtrefriw

er mwyn gweld y lluniau gwaith adeiladu misol yn ysgol ardal newydd Caerhun a Threfriw gan gynnwys cylchlythyrau a dogfennau statudol.



Yn ychwanegol at gyhoeddi enw'r ysgol newydd, mae gwaith yn parhau ar yr adeilad. Mae hyn yn cynnwys gosod paneli ffotofoltaidd a gorchuddion to yn ychwanegol at y gwaith mewnol fel ynysu'r llawr, sgrid a gosod byrddau plastro a pharwydydd mewnol.



Sir Conwy, yr amgylchedd iawn ar gyfer
dysgu a chyflawni

Conwy County, the right environment for
learning and achieving